# CYLCHLYTHYR 05.09.25

Croeso cynnes iawn nôl i bawb ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd! Gobeithiwn eich bod i gyd yn iach ac wedi mwynhau gwyliau haf hyfryd. Mae'n bleser mawr cael gweld wynebau cyfarwydd yn ôl, ac rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous, llawn cyfleoedd i ddysgu, tyfu a mwynhau gyda'n gilydd. Croeso arbennig hefyd i'r plant a'r teuluoedd newydd sy'n ymuno â'n cymuned ysgol – rydym yn falch iawn o'ch cael chi fel rhan o'n teulu ac yn edrych ymlaen at eich cefnogi ar eich taith gyda ni.

## GWAHODDIAD I GWRDD Â'R ATHRO – DYDD MERCHER, MEDI 17

Rydym yn eich gwahodd i sesiwn anffurfiol gydag athro eich plentyn ar **ddydd Mercher, Medi 17eg, rhwng 3:15yp a 4:30yp.**

Bydd y sesiwn yn gyfle i chi:

- Gwrdd ag athro eich plentyn
- Treulio amser yn yr ystafell ddosbarth
- Clywed am drefniadau darllen, gwaith cartref a themâu dysgu'r flwyddyn

Does dim angen apwyntiad – gallwch alw heibio unrhyw bryd yn ystod y sesiwn.
Bydd cyfarfodydd unigol gyda rhieni yn cael eu trefnu yn nes ymlaen yn y tymor.

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

## CLYBIAU

Bydd clybiau allgyrsiol yn cychwyn yr wythnos nesaf – plis cliciwch y ddolen isod neu ddefnyddio'r cod qr i gofrestr eich plentyn. Bydd y clybiau yn newid bob hanner tymor i gynnig amrywiaeth i'n disgyblion. 😉

| | Pryd | Beth? | Pwy? |
|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth** | 3:15 – 4:30 | Pêl-droed | Bl 5 & 6 cymysg |
| **Dydd Iau** | 3:15 – 4:30 | Aml-chwaraeon yr Urdd | Bl 3 – 6 |
| **Dydd Iau** | 3:15 – 4:30 | Clwb hwyl a sbri | Bl 1 & 2 |
| **Dydd Gwener** | 12 – 12:30 | Clwb cardiau Pokemon a gemau bwrdd | Bl 3 – 6 |

Cliciwch yma i gofrestru
neu ddefnyddiwch y côd QR isod

Clybiau Tymor yr Hydref 2025 Autumn Term Clubs

## Gwersi Addysg Gorfforol – yn ailddechrau o wythnos nesaf

Bydd gwersi Addysg Gorfforol yn ailgychwyn yr wythnos nesaf. Dyma'r trefniadau:

| Llun<br>Monday | Mawrth<br>Tuesday | Mercher<br>Wednesday | Iau<br>Thursday | Gwener<br>Friday |
|---|---|---|---|---|
| Masarnen | Castanwydd en | Collen | Derwen | Ywen |
| Sycamorwydden | | | Gwernen | |

- **Dawns/gymnasteg**

| Llun<br>Monday | Mawrth<br>Tuesday | Mercher<br>Wednesday | Iau<br>Thursday |
|---|---|---|---|
| Collen | Derwen | Ywen | Masarnen |
| | | Gwernen | Sycamorwydden |
| | | | Castanwydden |

- **IARD/CAE – athletau, Rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd ayyb**

### Cit Addas

Disgwylir i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn gwisgo eu cit Addysg Gorfforol ar y diwrnodau penodedig. Ar gyfer y gwersi ymarfer corf tu allan bydd angen dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd , ee tracwisg, hoody, cot ayyb.

**Mae'r cit cywir yn cynnwys:**

- Siorts, trowsus chwaraeon neu legins tywyll
- Crys-T gwyn neu grys-T yn lliw eu llys

**Sylwch:**

- Ni chaniateir citiau timau pêl-droed, rygbi nac unrhyw wisg gyda logos timau chwaraeon, na shorts byr iawn.
- Ni chaniateir gemwaith o unrhyw fath ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol – am resymau iechyd a diogelwch

Diolch am eich cydweithrediad wrth sicrhau diogelwch a threfn i'n disgyblion.

## LLUNIAU UNIGOL/TEULUOL

Bydd cwmni tynnu lluniau Tempest yn yr ysgol ar **ddydd Llun 29ain o Fedi** ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theuluoedd. Os ydych yn dymuno llun gyda brodyr neu chwiorydd nad ydynt yn ddisgyblion Coed-y-Gof, dewch i'r ysgol am 08:40. Diolch.

## ALERGEDDAU

**Cofiwch os gwelwch yn dda:** Er mwyn diogelu iechyd ein disgyblion, gofynnwn yn garedig i chi beidio anfon unrhyw fwyd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol. Mae gennym blant yn yr ysgol sydd ag alergeddau difrifol, ac mae'n hollbwysig ein bod yn cadw pawb yn ddiogel. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 17/09/25 | Cwrdd â'r athro |
| 18&19/09/25 | Bl 5 Taith preswyl i Storey Arms |
| 23/09/25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 24-26/09/25 | Taith preswyl Bl 6 i Langrannog |
| 29/09/25 | Lluniau unigol a theuluoedd |
| 03/10/25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |
| 12/-23/10/25 | Gwersi seiclo i fl 6 |
| 16/10/25 | Twrnamaint Pêl-droed Merched |
| 23/10/25 | Pêl-droed cymysg bl 3 & 4 |
| 24/10/24 | HMS CLWSTWR PLASMAWR – YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |
| 27-31/10/25 | GWYLIAU HANNER TYMOR |
| 10/11/25 | Brechliniau ffliw |
| 11-13/11/25 | Nosweithiau rieni |
| 02/12/25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 8-11/12/25 | Sioeau Naodlig – manylion i ddilyn |
| 19/12/25 | Diwedd y tymor |
| 22/12/25 – 05/01/26 | GWYLIAU NADOLIG |
| 05/01/26 | YSGOL YN AIL-AGOR I DDISGYBLION |

YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF